Rhaglen Mesur Plant Cymru 2018 - 2019

Datganiad ar ansawdd data

Crynodeb

Mae'r datganiad hwn ar ansawdd data yn ymwneud â gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Raglen Mesur Plant Cymru yn 2021, gan gynnwys yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2018/19. Lluniwyd y safonau fel y gellid diffinio'r trefniadau y gallai cyrff cyhoeddus eu mabwysiadu i hyrwyddo gwelliannau yn ansawdd eu data, gan gryfhau hyder yn y data a ddefnyddir gan yr holl gyrff a phartneriaethau yn y sector cyhoeddus. Er bod y Comisiwn Archwilio wedi cau yn 2015, mae llawer o gyrff yn y sector cyhoeddus yn dal i ddefnyddio'r safonau hyn. Mae seithfed safon yn ymwneud â hygyrchedd wedi cael ei chynnwys hefyd yn y datganiad hwn.

"Safonau ar gyfer data o ansawdd well" y Comisiwn Archwilio 2007

- ***Perthnasedd*** *– dylai unrhyw ddata a gipir fod yn berthnasol i'r dibenion y maent yn cael eu defnyddio iddynt. Mae hyn yn golygu arolygu gofynion bob hyn a hyn er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn anghenion.*
- ***Manwl gywirdeb*** *– dylai data fod yn ddigon manwl gywir ar gyfer y dibenion a fwriedir iddynt. Mae manwl gywirdeb ar ei fwyaf tebygol o gael ei sicrhau os bydd data'n cael eu cipio mor agos â phosibl at y pwynt gweithredu. Dylid cipio data unwaith yn unig, er bod ganddynt berthnasedd efallai i sawl diben (gweler yr adran isod). Mae'n rhaid pwyso a mesur pwysigrwydd gwahanol ddibenion y data yng nghyd-destun y costau a maint yr ymdrech y mae eu hel yn eu golygu. Lle bo angen cyfaddawdu yng nghyswllt manwl gywirdeb, dylid egluro unrhyw gyfyngiadau ar ddefnyddioldeb y data sy'n deillio o hyn.*
- ***Cyflawnder*** *– dylid nodi'r gofynion ynghylch data yn eglur ar sail anghenion y corff o ran gwybodaeth, a dylai prosesau casglu data gyfateb i'r gofynion hyn. Trwy fonitro cofnodion coll, anghyflawn neu annilys, mae'n bosibl rhoi syniad o ansawdd data a datgelu unrhyw broblemau sy'n codi wrth gofnodi eitemau data penodol.*
- ***Dilysrwydd*** *– dylid cofnodi data yn unol â'r gofynion perthnasol, gan gynnwys cymhwyso unrhyw reolau neu ddiffiniadau'n gywir. Lle y defnyddir dirprwy-ddata i wneud iawn am absenoldeb y gwir ddata, rhaid i sefydliadau ystyried pa mor dda y gall y data hyn ddiwallu'r diben a fwriedir.*
- ***Amseroldeb*** *– dylid cipio data mor fuan â phosibl ar ôl y digwyddiad neu'r gweithgaredd, a rhaid iddynt fod ar gael i'r diben a fwriedir o fewn cyfnod rhesymol.*
- ***Dibynadwyedd*** *– dylai data adlewyrchu prosesau casglu data sefydlog a chyson ar draws gwahanol fannau casglu a thros gyfnod. Dylai defnyddwyr y data allu hyderu bod gwelliannau'n adlewyrchu newidiadau go iawn yn hytrach nag amrywiadau mewn dulliau neu dechnegau casglu data.*

Cefndir a diben

Sefydlwyd Rhaglen Mesur Plant Cymru drwy statud gan Lywodraeth Cymru yn 2011 a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn 2013. Mae'r rheoliadau'n caniatáu i wybodaeth gael ei chasglu i lywio rhaglen flynyddol lle y caiff plant mewn dosbarthiadau derbyn ac ym mlwyddyn 4 eu pwyso a'u mesur mewn ysgolion. Ar hyn o bryd dim ond yn y dosbarth derbyn y gwneir hyn.

Datganiad ar ansawdd data

- **Perthnasedd** – er bod plant oedran ysgol wedi cael eu pwyso a'u mesur ar yr oedran hwn ers nifer o flynyddoedd, ers 2011 gwnaed hyn yn benodol er mwyn llywio'r Rhaglen Mesur Plant a chaiff data eu mewnbynnu ar fodiwl penodol y Rhaglen Mesur Plant yn y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD) ym mhob Bwrdd Iechyd. Fel arfer, aiff ystadegau swyddogol ac adroddiad y Rhaglen Mesur Plant eu rhyddhau yn ystod y gwanwyn yn y flwyddyn galendr sy'n dilyn diwedd y flwyddyn ysgol a gwblhawyd. Oherwydd oedi yn sgil yr ymateb i' argyfwng COVID 19 ni chyhoeddwyd adroddiad 2018/19 tan dymor y Gwanwyn 2021. Felly, yn 2021 roedd yr adroddiad blynyddol yn ymwneud â mesuriadau a gasglwyd yn y flwyddyn dderbyn mewn ysgolion yn ystod 2018/19. Mae'r adroddiad yn cynnwys mesuriadau plant 4 i 5 oed, sy'n mynychu ysgolion y brif ffrwd yng Nghymru, y mae eu côd post yn dangos eu bod yn preswylio yng Nghymru.

  Ers cyhoeddi'r adroddiad cyntaf yn 2013 mae'r dull o ddadansoddi'r data wedi newid. Ers 2014 cynhaliwyd dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd. Mae nifer y plant sydd o darddiad ethnig ar wahân i wyn yn fach; o 2018 ymlaen felly cyfunwyd y data dros bum mlynedd a gwnaed hyn eto eleni, ond fe'u rhyddheir ar gyfer un flwyddyn yn unig o hyd. Yn 2015, cynhaliwyd dadansoddiad yn ôl preswylfa drefol/wledig a chaiff hyn ei wneud eto yn 2021. Gall data ar nifer yr achosion mewn gwahanol gategorïau BMI gael eu harchwilio ar lefel byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Dadansoddir data hefyd yn ôl rhyw ac amddifadedd. Ni ddatgelir data ar niferoedd bach er mwyn sicrhau na chaiff unigolion eu hadnabod, yn unol ag arferion da o ran llywodraethu gwybodaeth.

- **Manwl gywirdeb** – caiff mesuriadau eu cymryd mewn ffordd safonedig gan aelodau hyfforddedig o dimau iechyd ysgol ledled Cymru. Mae pecyn hyfforddi a chlip fideo ar gael ar-lein er mwyn safoni'r broses fesur.

  Caiff y wybodaeth ei dadansoddi mewn dull safonedig hefyd, a ddisgrifir yn nogfen dechnegol y Rhaglen Mesur Plant. Ers 2014 arferir dadansoddi mesuriadau plant yn ôl eu hethnigrwydd. Ceir problem amlwg ynghylch cofnodi ethnigrwydd ar yr NCCHD, sef bod rhai plant wedi cael eu codio o ran eu hethnigrwydd gan ddefnyddio system godio a ddaeth i ben yn 2002, er bod y plant hynny wedi cael eu geni ar ôl 2002. Mae ymchwiliad cychwynnol yn awgrymu bod rhai plant wedi derbyn y côd ethnigrwydd a gofnodwyd ar gofnodion mamolaeth eu mam, yn hytrach na chael eu côd eu hunain. Ar gyfer adroddiad 2021 cafodd 72% o'r plant eu codio gan ddefnyddio'r codau a fabwysiadwyd ar ôl 2002. Nid oedd gan 23.5% o'r plant yn y rhaglen unrhyw godau ar gyfer ethnigrwydd yn eu cofnodion. Mae hyn yn uwch na'r 19.2% a gofnodwyd yn y sefyllfa hon yn y flwyddyn flaenorol.

  Ni chynhwysir yn y dadansoddiad gofnodion o godau ysgolion anhysbys. Yn 2020 cafodd rhestr y codau eithriedig ei harolygu a'i diweddaru. Bob blwyddyn mae'r cofnodion i gyd, gan gynnwys cofnodion blynyddoedd blaenorol, yn cael eu dadansoddi o'r ffynhonnell gan ddefnyddio piblinell ddadansoddiadol atgynyrchadwy. O ganlyniad ceir gwahaniaethau bach

yn y cyfraddau cyfranogiad/mynychder a adroddir yn 2021 o'u cymharu â'r rhai a adroddwyd yn 2019.

Lle y cofnodir mwy nag un set o fesuriadau ar y gronfa ddata ar gyfer un plentyn, dim ond y mesuriadau mwyaf diweddar sy'n cael eu cynnwys yn y dadansoddiad. Caiff cofnodion eu cynnwys yn y rhaglen os ydynt yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- Gellir pennu'r lleoliad preswyl
- Mae'r plentyn yn preswylio yng Nghymru
- Mae'r ysgol wedi'i lleoli yng Nghymru
- Ganwyd y plentyn yn ystod y cyfnod sy'n berthnasol i'r adroddiad.
- Mae rhyw y plentyn wedi'i gofnodi

Caiff cofnodion cymwys eu cynnwys yn y nifer a fesurir, os ydynt yn bodloni pob un o'r meini prawf canlynol:

- Mae pob maes data wedi'i gwblhau
- Mae'r mesuriad taldra wedi'i gofnodi ac nid yw'n fesuriad annhebygol[1]
- Mae'r mesuriad pwysau wedi'i gofnodi ac nid yw'n fesuriad annhebygol
- Ni thynnwyd caniatâd yn ôl
- Casglwyd y mesuriad yn ystod y flwyddyn academaidd berthnasol.

- **Cyflawnder** – Cofnodir cyfranogiad ar lefel bwrdd iechyd ac awdurdod lleol i sicrhau bod y cwmpas o fewn lefelau derbyniol. 93.4% oedd canran y cyfranogiad yn y rhaglen yn 2018/19. Fodd bynnag, cafodd 31,756 o blant eu mesur eleni, o gymharu â 33,166 yn 2017/18. Mae mwy o blant sy'n gymwys i gael eu mesur (8,619) yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf nag mewn unrhyw un o'r cwintelau amddifadedd eraill. O blith y plant hyn, cafodd 92.7% eu mesur, o'u cymharu â 92.6% yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf. Roedd cyfranogiad yn is ymhlith bechgyn na merched (93.0% : 93.8%). Penderfynodd rhieni/gofalwyr 468 o'r plant eu heithrio o'r rhaglen fesur ar gyfer adroddiad eleni.

Plant a gafodd eu heithrio o'r rhaglen gan eu rhieni	
BIP Aneurin Bevan	42
BIP Bae Bevan	-
BIP Betsi Cadwaladr	-
BIP Caerdydd a'r Fro	382
BIP Cwm Taf Morgannwg	-
BIP Hywel Dda	12
BIA Powys	27
Cyfanswm a eithriwyd	**468**

[1] Mewn achosion prin iawn mae'n ymddangos bod gwall dynol yn gallu arwain at fewnbynnu'r ffigurau anghywir yn y meysydd anghywir. Er ei bod yn ymddangos fel petai'r mesuriadau ar gyfer taldra a phwysau wedi cael eu cyfnewid nid oes ffordd i gadarnhau hyn, felly ni chaiff y mesuriadau eu cynnwys.

Caiff nifer y plant sy'n gymwys i gael eu mesur ei hasesu yn erbyn nifer y plant a gofnodir ar Gyfrifiad Ysgolion Llywodraeth Cymru (PLASC). Yn 2018/19, roedd 34,009 o blant wedi eu cofnodi ar yr NCCHD ar 31 Gorffennaf 2018 fel plant a oedd yn gymwys i'w cynnwys yn y rhaglen fesur. Ym mis Ionawr yr un flwyddyn cofnododd y Cyfrifiad Ysgolion bod 33,845 o blant yn mynychu dosbarthiadau derbyn yng Nghymru. Mae hyn yn cynrychioli gwahaniaeth o 164 o blant. Bydd gwahaniaeth oherwydd nid yw plant sydd â chod post preswyl yn Lloegr ond sy'n mynychu ysgol yng Nghymru yn gymwys i'w cynnwys yn y Rhaglen Mesur Plant. Yn ogystal, cynhelir y cyfrifiadau chwe mis ar wahân, a bydd plant yn symud i mewn ac allan o ysgolion yn y cyfamser.

- **Dilysrwydd** – tanategir y Rhaglen Mesur Plant gan statud sy'n gosod rheoliadau ar gyfer casglu, coladu a dadansoddi. Dosberthir y rhain i Fyrddau Iechyd yng Nghymru gan y Rhaglen Mesur Plant ar ffurf Safonau a Chanllawiau'r Rhaglen Mesur Plant.

- **Amseroldeb** – caiff y mesuriadau eu gwneud ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ysgol (2018/19). Yn dilyn hyn caiff y data eu mewnbynnu i'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol cyn diwedd mis Medi. Defnyddir dyddiad geni a dyddiad mesur pob plentyn i gyfrifo ei BMI yn gywir. Derbynnir y mesuriadau fel lawrlwythiad, a chaiff y data eu glanhau a'u dadansoddi rhwng mis Hydref a mis Ionawr, a'u paratoi i'w cyhoeddi yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth. Oherwydd oedi yn sgil yr ymateb i argyfwng COVID 19 ni chafodd adroddiad 2018/19 ei gyhoeddi tan dymor y Gwanwyn 2021.

- **Dibynadwyedd –** mae'r data a ddefnyddir i lywio adroddiad blynyddol y Rhaglen Mesur Plant yn cael eu casglu at y diben penodol o oruchwylio mesuriadau plant yn y grŵp oedran hwn a'u cofnodi ar fodiwl Rhaglen Mesur Plant yr NCCHD. Caiff y mesuriadau eu gwneud gan staff sydd wedi'u hyfforddi i wneud y mesuriadau mewn ffordd safonedig, gan ddefnyddio cyfarpar sy'n cael ei raddnodi'n flynyddol. Caiff y data eu derbyn gan NWIS fel lawrlwythiad. Yn dilyn hyn cânt eu prosesu gan ddadansoddwyr yn Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, a chaiff yr holl ganlyniadau eu gwirio o ran ansawdd gan aelodau eraill o'r tîm.

- **Hygyrchedd** – caiff y data eu rhyddhau ar wefan yn Gymraeg a Saesneg. Darperir data ar ffurf taenlenni, sy'n cael eu hategu gan siartiau, adroddiad a chyflwyniad perthnasol. Cyhoeddir sylwebaeth naill ai ar ffurf ffeliau PDF, neu fel gwe-destun.

  Ni fydd yr holl ddata/gwybodaeth yn hygyrch i bobl â nam ar eu golwg. Ni ddarperir y dadansoddiad a'r adroddiad mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg; serch hynny, mae gwybodaeth i rieni am y rhaglen ei hun ar gael mewn chwech iaith gymunedol ac mewn fformat sy'n hawdd ei deall.

- **Gwybodaeth ychwanegol** – dylid nodi bod cymhariaeth yn cael ei gwneud â rhaglen fesur genedlaethol yr Alban. Nid oedd modd inni gael hyd i gyfyngau hyder ar gyfer y data o'r Alban, er mwyn canfod arwyddocâd ystadegol. Ar ben hyn, cynhelir mesuriadau yn yr Alban ym Mlwyddyn 1 yr ysgol gynradd; mae'r plant ychydig yn hŷn felly, rhwng 4.5 a 6.25 oed.

  Yn olaf, cynhaliwyd y dadansoddiad, gan gynnwys y cyfartaleddau pum mlynedd, ar sail ffiniau Byrddau Iechyd Cymru na fyddant yn dod i rym tan 1af Ebrill 2019. Mae hyn yn effeithio ar ddau fwrdd iechyd, sef BIP Cwm Taf Morgannwg a BIP Bae Abertawe wrth i ardal awdurdod lleol Penybont ar Ogwr symud o'r cyntaf i'r ail.

GIG
CYMRU
NHS
WALES
Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales